Tyst yn y llys

Y system cyfiawnder troseddol

Os gofynnir i chi fod yn dyst mewn treial neu wrandawiad, rydych yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu cyfiawnder.

Trwy wneud addewid ddifrifol i ddweud y gwir a thrwy roi eich tystiolaeth yn y llys, rydych yn ei gwneud yn bosibl i ynadon (neu'r barnwr a'r rheithgor os gelwir arnoch i fod yn dyst yn Llys y Goron) ddeall yn union beth ddigwyddodd.

Cyn y gall y llysoedd gael rhywun yn euog neu'n ddieuog o drosedd, rhaid iddynt gael clywed ac ystyried y dystiolaeth – a'r tystion yw'r bobl sy'n darparu'r dystiolaeth.

Diolch i chi am eich amser a'ch ymdrech.

01 Beth mae bod yn dyst yn ei olygu?

Pam y gofynnir i chi fod yn dyst?

Gellir gofyn i chi fod yn dyst os byddwch:

- yn gwybod rhywbeth am drosedd, digwyddiad neu anghydfod penodol, oherwydd i chi ei weld yn digwydd er enghraifft;
- yn meddu ar dystiolaeth arbenigol ar bwnc a fyddai'n ddefnyddiol wrth benderfynu ar y ffeithiau mewn achos llys (yna byddwch yn dyst arbenigol); neu
- yn adnabod un o'r bobl sy'n ymwneud â'r achos (yna byddwch yn dyst cymeriad). Byddech yn cael eich holi am ba mor dda yr ydych yn adnabod y person, er enghraifft, ac a yw ef neu hi yn un y gellir ymddiried ynddo/ynddi.

Sut beth yw bod yn dyst?

Efallai nad ydych yn gwybod beth i'w ddisgwyl os gelwir chi fel tyst – neu gallwch gael y profiad yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl.

Bydd y daflen hon yn helpu i'ch paratoi ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd. Mae'n esbonio:

- ble i gael mwy o gymorth a chyngor ar fod yn dyst;
- ble y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth – y gwahanol fathau o lysoedd;
- pwy yw pwy yn y llys a beth mae peth o'r iaith gyfreithiol yn ei olygu;
- beth sy'n digwydd cyn i chi fynd i'r llys;

- beth sy'n digwydd pan fyddwch yn y llys; a
- beth sy'n digwydd wedi i chi roi eich tystiolaeth.

Cofiwch: **Os ydych chi wedi rhoi datganiad ac yna bod gofyn i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth, rhaid i chi wneud hynny.**

Os oes gennych unrhyw broblemau neu bryderon am fynd i'r llys, rhaid i chi adael i'r person a ofynnodd i chi fynd i'r llys wybod cyn gynted â phosibl. Os oes rhaid i chi fynd i'r llys ond nad yw'r llys yn meddwl y byddwch yn mynd yn wirfoddol, gallant gyhoeddi gwŷs tystio yn eich erbyn. Os na fyddwch yn mynychu'r llys wedyn heb reswm da, gall y llys bennu eich bod yn dirmygu'r llys a chyhoeddi warant i'ch arestio.

02 Ble gallwch chi ddod o hyd i gymorth a gwybodaeth am roi eich tystiolaeth?

Nid yw'n anarferol i bobl deimlo'n bryderus am roi tystiolaeth mewn llys. Efallai nad ydych yn sicr a fydd yr hyn y byddwch yn ei ddweud, neu'r ffordd y byddwch yn ei ddweud yn helpu i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni.

Mae'r bobl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol yn gwybod y gall y profiad fod yn un newydd neu ryfedd i chi, ac fe fyddant yn gwneud popeth a allant i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich trin gyda pharch a sensitifrwydd.

Y Gwasanaeth Tystion

Gallwch siarad gyda gwirfoddolwr wedi ei hyfforddi o'r Gwasanaeth Tystion cyn mynd i'r llys, a bydd gwirfoddolwr yn y llys i'ch helpu. Ni allant drafod tystiolaeth na rhoi cyngor cyfreithiol, ond byddant yn wyneb cyfeillgar a fydd yn dangos y llys i chi ac yn dweud beth fydd yn digwydd.

Mae Gwasanaeth Tystion ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr. Rhedir y gwasanaeth hwn gan yr elusen genedlaethol annibynnol, Cymorth i Ddioddefwyr, ac mae'n helpu dioddefwyr a thystion (dros yr erlyniad a'r amddiffyniad), a'u teuluoedd a'u ffrindiau, cyn, yn ystod ac wedi'r achos llys. Mae'r Gwasanaeth Tystion yn anfon taflen i dystion cyn y gwrandawiad llys i gynnig ei wasanaeth.

Mae gwirfoddolwyr wedi eu hyfforddi yn cynnig gwasanaeth rhad ac am ddim a chyfrinachol gan gynnwys:

- gwybodaeth gyffredinol ar drefniadau'r llys;
- cefnogaeth bersonol cyn, yn ystod ac wedi'r gwrandawiad;
- rhywun i fynd gyda chi i'r llys os oes raid i chi roi tystiolaeth; a
- ymweliad â'r llys cyn i chi roi tystiolaeth fel na fydd yn ymddangos yn ddieithr i chi.

Gallwch ddod o hyd i'w manylion yn y llyfr ffôn dan enw'r llys.

Neu, gallwch gysylltu â'r Llinell Gefnogi Dioddefwyr ar 0845 30 30 900.

Rhagor o wybodaeth

Mae siarter ar gyfer Llys y Goron o'r enw 'Siarter ar gyfer Defnyddwyr y Llys', sy'n nodi'r safonau pwysig y gallwch eu disgwyl pan fyddwch yn dod i'r llys. Gallwch gael copi o Brif Swyddfa'r Gwasanaeth Llys trwy ffonio 020 7210 2269. Mae gan lawer o lysoedd ynadon eu siarter leol eu hunain, y gallwch ei chael o'r llys.

Gallwch hefyd gael y daflen hon mewn Bengali, Cantoneg, Gujarati, Hindi, Punjabi, Wrdw, Somali, Fietnameg, Groeg, Tyrceg ac Arabeg.

Gallwch gael y daflen hefyd mewn print bras, mewn Braille neu ar dâp sain. Cysylltwch â'ch swyddfa heddlu leol neu swyddfa'r Gwasanaeth Tystion am fanylion.

Gallwch gael gwybodaeth gyffredinol am y system cyfiawnder troseddol (yr heddlu, y llysoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron) a rhagor o wybodaeth am fod yn dyst ar www.cjsonline.org

(Mae UK Online yn cynnig cyswllt â'r rhyngrwyd am ddim neu ar gost isel mewn dros 6,000 o) ganolfannau ledled y DU. Ffoniwch 0800 77 1234 i ddod o hyd i'ch canolfan agosaf.

03 Ble byddwch chi'n rhoi tystiolaeth?

Mae tri math o lys lle gallwch gael eich galw i roi tystiolaeth.

- Llys ynadon
- Llys y Goron
- Llys leuenctid

Bydd y person neu gorff sy'n ysgrifennu atoch i ddweud pryd a ble y bydd eich angen fel tyst yn cynnwys manylion ar ba fath o lys y bydd yr achos yn cael ei gynnal ynddo.

Llys ynadon

Mae'r rhan fwyaf o achosion troseddol sy'n dod i'r llys yn cael eu cynnal yn y llysoedd ynadon.

Mae ynadon yn gwrando ar yr holl dystiolaeth – gan gynnwys datganiadau y byddwch chi ac unrhyw dystion eraill yn eu rhoi – ac yn penderfynu a yw'r person a gyhuddwyd o'r trosedd (y diffynnydd) yn euog neu beidio. Os ceir y diffynnydd yn euog neu ei fod ef neu hi yn cyfaddef, yr ynadon fel arfer sy'n pennu'r ddedfryd.

Gall yr ynadon fod yn dri pherson lleol (a elwir weithiau yn ynadon heddwch neu JP), gyda chefnogaeth ymgynghorydd gyda hyfforddiant cyfreithiol, neu efallai mai dim ond un ynad fydd yno (a elwir yn farnwr rhanbarth sy'n gyfreithiwr). Nid oes neb yn y llys ynadon yn gwisgo'r wigiau gwynion a welir yn aml gan farnwyr neu gyfreithwyr mewn ffilmiau neu ar y teledu, a dim ond y tywyswyr sy'n gwisgo gynau duon.

Bydd yno gyfreithiwr (neu dîm o gyfreithwyr) sy'n siarad ar ran yr erlyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyfreithiwr arall (neu dîm o gyfreithwyr) yn siarad ar ran y diffynnydd – a elwir hefyd 'y cyhuddedig'.

Mae'r llun yn dangos llys ynadon nodweddiadol. Mae'r ynadon yn eistedd tu ôl i fainc wedi ei chodi ac mae'r blwch tystio fel arfer ar un ochr yn agos i du blaen y llys.



Allwedd:

A Tyst B Ynadon C Clerc y llys
D Cyfreithwyr ar ran yr erlyniad a'r amddiffyniad
E Tywyswr y llys F Diffynnydd G Eraill

Llys y Goron

Fel arfer dim ond ar gyfer troseddau difrifol iawn y bydd achosion ger bron barnwr a rheithgor yn Llys y Goron, neu pan fydd diffynnydd wedi gofyn am brofi ei achos ger bron rheithgor. Gall ynadon anfon achos i Lys y Goron os byddant yn teimlo nad oes ganddynt y grym i osod dedfryd mor ddifrifol ag y mae'r trosedd yn ei haeddu, os ceir y diffynnydd yn euog.

Wedi gwrando ar yr holl dystiolaeth, mae'r rheithgor yn dweud wrth y barnwr a ydynt yn cael y diffynnydd yn 'euog' neu'n 'ddieuog'.

Y barnwr sy'n penderfynu ar faterion cyfreithiol. Os ceir y diffynnydd yn euog neu ei fod ef neu hi yn cyfaddef hynny, y barnwr sy'n penderfynu ar y ddedfryd hefyd.

Yn y llys, bydd cyfreithiwr (neu dîm o gyfreithwyr) sy'n siarad ar ran yr erlyniad, a chyfreithiwr gwahanol (neu dîm) sy'n siarad ar ran y diffynnydd.

Mae'r darlun yn dangos ystafell y llys mewn Llys y Goron nodweddiadol. Mae barnwyr a rhai cyfreithwyr yn gwisgo wigiau a gynau. Mae clerc y llys hefyd yn gwisgo gŵn, ac mewn rhai llysoedd, wig hefyd. Mae rhan arbennig hefyd i'r rheithgor eistedd ynddi.



Allwedd:

A Tyst B Barnwr C Clerc y llys
D Cyfreithwyr dros yr erlyniad a'r amddiffyniad
E Aelodau'r rheithgor F Diffynnydd

Llys ieuenctid

Ymdrinnir â'r mwyafrif o ddiffynyddion dan 18 yn y llys ieuenctid gan ynadon wedi eu hyfforddi'n arbennig neu gan farnwr rhanbarth. Nid oes rheithgor yn yr achosion hyn. Yn wahanol i lysoedd ynadon oedolion a Llys y Goron sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd, mae'r gyfraith yn cyfyngu mynediad i lys ieuenctid i:

- aelodau a swyddogion y llys;
- y ddwy ochr sy'n ymwneud â'r achos a'u cynrychiolwyr cyfreithiol;
- tystion;
- pobl eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos; ac
- aelodau o'r cyfryngau a phobl eraill y mae'r llys wedi rhoi caniatâd iddynt fod yn bresennol. (Gall y cyfryngau adrodd ar y gweithgareddau ond fel arfer ni allant enwi unrhyw bobl ifanc sy'n ymwneud â'r achos.)

Ni fydd plentyn neu berson ifanc yn wynebu achos yn y llys ieuenctid os bydd ef neu hi wedi ei gyhuddo:

- o lofruddiaeth neu ddynladdiad (mae'r achosion hyn yn mynd i Lys y Goron i'w profi bob amser);
- o drosedd difrifol iawn, fel dwyn, a bod y llys ieuenctid yn ystyried y gellir bod angen pwerau dedfrydu ehangach Llys y Goron; neu
- ar y cyd gydag oedolyn (person sy'n 18 oed neu hŷn) – gwrandawir ar yr achosion hyn yn llys ynadon yr oedolion neu yn Llys y Goron.

Mae'r darlun yn dangos llys ieuenctid nodweddiadol. Fel arfer bydd yr ynadon yn eistedd ar yr un lefel â phawb arall yn y llys.



Allwedd:

A Tyst B Ynadon C Clerc y llys
D Cyfreithwyr yr erlyniad a'r amddiffyniad
E Rhiant y diffynnydd F Y Person Ifanc a droseddodd
G Gweithiwr Tîm H Tywyswr

04 Pwy yw pwy yn y llys

- Diffynnydd
- Cyfreithwyr
  - Erlyniad
  - Amddiffyniad
- Tystion (gan eich cynnwys chi)
- Ynadon, barnwr rhanbarth neu farnwr
- Y rheithgor (yn Llys y Goron yn unig)
- Clerc y llys
- Tywyswr y llysr
- Pobl eraill

Diffynnydd

Y diffynnydd (a elwir hefyd yn 'gyhuddedig') yw'r person a gyhuddwyd o'r trosedd.

Cyfreithwyr

Bydd un cyfreithiwr (neu dîm o gyfreithwyr) yn siarad ar ran yr erlyniad a bydd un yn siarad ar ran yr amddiffyniad. Os bydd mwy nag un diffynnydd, efallai y bydd cyfreithiwr gwahanol i bob diffynnydd.

Bydd y rhan fwyaf o erlyniadau yn cael eu gweithredu gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar ran y Goron (y Frenhines). Dyna pam y byddwch yn gweld neu glywed yr achos yn cael ei drafod fel R v 'enw'r diffynnydd' lle mae 'R' yn golygu 'Regina' neu'r Frenhines. Y CPS sy'n penderfynu a fydd achos y mae'r heddlu wedi ymchwilio iddo yn cael ei erlyn, ac, os hynny, pa gyhuddiadau i'w dwyn yn erbyn y diffynnydd.

Bydd y ddau gyfreithiwr yn ceisio darbwyllo'r ynadon neu reithgor sut y mae'r dystiolaeth yn dangos y gwir o ran beth a ddigwyddodd mewn gwirionedd.

Tystion (gan eich cynnwys chi)

Fel arfer mae tystion dros yr erlyniad (y mae eu tystiolaeth yn cael ei defnyddio i geisio profi bod y diffynnydd yn euog) a dros yr amddiffyniad (dieuog).

Bydd a fyddwch yn cael eich galw fel tyst dros yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn dibynnu ar ba ochr sy'n meddwl y gall eich tystiolaeth fod o fwyaf o gymorth i'w hachos.

Ynadon, barnwr rhanbarth neu farnwr

Gall ynad, barnwr rhanbarth neu farnwr ofyn cwestiynau i chi am eich datganiad tyst. Mewn achos yn Llys y Goron, gall y rheithgor ysgrifennu cwestiynau y gallant eu trosglwyddo i'r barnwr. Yna bydd y barnwr yn gofyn i'r tyst.

Os ceir y diffynnydd yn euog (collfarnu), bydd yr ynadon, barnwr rhanbarth neu farnwr yn penderfynu ar y ddedfryd (yr hŷn sy'n digwydd i'r diffynnydd, fel dirwy, gwasanaeth cymunedol neu ddedfryd o garchar).

Y rheithgor (yn Llys y Goron yn unig)

Mae rheithgor yn cynnwys 12 o bobl sydd, cyn belled ag y mae modd, yn cynrychioli'r 'cyhoedd yn gyffredinol'. Gan fod aelodau'r rheithgor yn cael eu dewis ar hap, maent yn debygol o adlewyrchu cymysgedd gynrychioliadol o bobl o wahanol oedrannau, o wahanol gefndiroedd diwylliannol, sy'n gwneud swyddi gwahanol.

Unwaith y bydd y rheithgor wedi clywed yr holl dystiolaeth, gan gynnwys yr hyn y byddwch chi (a thystion eraill) wedi ei ddweud, maent yn siarad am yr hyn y maent wedi ei glywed mewn ystafell breifat. Maent yn trafod y dystiolaeth. Os byddant yn siŵr eu bod wedi clywed prawf bod y diffynnydd wedi cyflawni'r trosedd, byddant yn cael y diffynnydd yn euog. Os na fydd y rheithgor yn siŵr o euogrwydd y diffynnydd, rhaid iddynt ei gael hi neu ef yn ddieuog.

Dewisir un aelod o'r rheithgor i fod yn 'ben-rheithiwr' a dweud wrth y llys beth y mae'r 12 wedi ei benderfynu. Dyma'r rheithfarn. Mae pawb yn y llys yn clywed y rheithfarn.

Weithiau, ni fydd y 12 o bobl yn medru cytuno a ydynt yn cael diffynnydd yn euog neu'n ddieuog, hyd yn oed os byddant yn siarad am y peth am ddyddiau neu wythnosau hyd yn oed. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y barnwr yn dweud wrth y rheithgor y gellir rhoi rheithfarn os bydd o leiaf 10 ohonynt yn cytuno (rheithfarn y mwyafrif). Os na ellir dychwelyd rheithfarn y mwyafrif, rhaid i'r erlyniad benderfynu a ydynt am ofyn am aildreial, sy'n golygu y bydd yr achos cyfan yn cael ei glywed eto ger bron rheithgor gwahanol. Os bydd yr erlyniad yn penderfynu peidio gofyn am aildreial, ceir y diffynnydd yn ddieuog.

Clerc y llys

Clerc y llys sy'n gwneud yn siŵr bod pawb ddylai fod yn y llys yno, a bod yr hyn sydd i fod i ddigwydd yn digwydd ar amser ac yn y drefn gywir. Gall ef neu hi hefyd edrych ar gofnodion beth ddigwyddodd mewn treialon eraill os bydd ar y barnwr angen gwybodaeth. Mewn llysoedd ynadon, mae'r clerc, a elwir hefyd yn ymgynghorydd cyfreithiol, yn rhoi cyngor i'r ynadon ar faterion cyfreithiol.

Tywyswyr llys

Pan fydd y cyfreithiwr yn dweud yn y llys ei fod am alw rhywun fel tyst, y tywyswr yw'r person sy'n mynd allan ac yn galw'r person i mewn i'r llys.

Pobl eraill

Mae'r bobl eraill y gallwch eu gweld yn y llys yn cynnwys swyddogion yr heddlu, swyddogion prawf, aelodau o'r Gwasanaeth Tystion a newyddiadurwyr. Mewn rhai llysoedd caiff aelodau o'r cyhoedd ddod i'r llys a gwylio'r hyn sy'n digwydd o'r oriel gyhoeddus. Gall hyn gynnwys ffrindiau a pherthnasau y bobl sy'n ymwneud â'r achos.

05 Beth sy'n digwydd cyn i chi fynd i'r llys?

Os ydych yn dyst i'r erlyniad, fel arfer byddwch yn derbyn llythyr 'rhybudd tyst' gan yr heddlu. Yn hwn dywedir wrthych pryd a ble y bydd raid i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth. Mae'n debyg na fyddwch yn cael mwy na thua phythefnos o rybudd o ddyddiad y treial. Dylai cyfreithiwr fedru dweud wrthych a fydd eich achos yn cael ei glywed yr wythnos hon neu'r wythnos nesaf, ond yn aml ni fydd neb yn gwybod yr union ddyddiad dechrau hyd y prynhawn cyn hynny.

Os ydych yn dyst i'r amddiffyniad, dylai cyfreithiwr yr amddiffyniad gysylltu â chi i adael i chi wybod pryd i fynd i'r llys.

Pan gymerodd yr heddlu neu gyfreithiwr yr amddiffyniad eich datganiad, byddant wedi gofyn pryd rydych ar gael i fynd i'r llys. Bydd y llys yn gwneud popeth o fewn ei allu i osod dyddiad treial sy'n gyfleus i bawb sy'n ymwneud â'r achos. Ond rhaid i dystion hefyd wneud popeth posibl i aildrefnu unrhyw beth a allai wrthdaro gyda'r amser pan fyddant yn rhoi tystiolaeth.

Amser o'r gwaith

Os bydd raid i chi gymryd amser o'r gwaith, dylech ddangos eich llythyr rhybudd tyst i'ch cyflogwr fel prawf bod raid i chi fynd i'r llys. Nid oes raid i'ch cyflogwr dalu i chi am yr amser pan fyddwch yn ymddangos fel tyst. Ond os byddwch yn colli cyflog, gallwch hawlio lwfans tyst ar gyfer enillion a gollwyd (gweler tudalen 23 am fwy o fanylion am hawlio treuliau). Gall y taliad colli enillion fod yn llai na'r enillion a gollwyd mewn gwirionedd.

Gwyliau

Disgwylir i chi fynd i'r llys hyd yn oed os bydd y dyddiad yn amharu ar eich cynlluniau gwyliau. Gallech geisio ail drefnu eich gwyliau. Cofiwch y bydd gohirio yn hwyr yn gallu golygu eich bod yn colli arian. Efallai na fydd eich yswiriant gwyliau yn gymwys os dywedwyd wrthych y gallai archebu gwyliau cyn bod y treial neu wrandawiad drosodd fod yn broblem.

Problemau iechyd

Os byddwch yn rhy wael i fynd i'r llys ar y diwrnod y galwyd arnoch i roi tystiolaeth, cysylltwch â chlerc y llys neu'r cyfreithiwr a ofynnodd i chi roi tystiolaeth ac esbonio.

Dylech ofyn i'ch Meddyg Teulu am dystysgrif feddygol a'i hanfon at y person a ofynnodd i chi ddod i'r llys. Os cewch y dystysgrif ar ddiwrnod y treial, gallwch ffonio'r llys ac yna anfon neu ffacsio'r ffurflen cyn gynted â phosibl.

Os yw'n edrych fel pe bai eich salwch yn debygol o barhau am rai dyddiau neu fwy, cysylltwch â chyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad a gofyn pa drefniadau eraill y gellir eu gwneud i'ch tystiolaeth gael ei chlywed yn y llys. Er enghraifft, gall y llys gytuno i glywed eich datganiad cynharach yn hytrach na thystiolaeth ar goedd.

Problemau eraill

Os oes unrhyw resymau eraill sy'n golygu na fedrwch fynd i'r llys, dylech gysylltu â'r llys mor fuan ag y gallwch.

Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud

Dylai'r person sy'n gofyn i chi fynd i'r llys anfon gwybodaeth parthed sut i gyrraedd y llys a'r cyfleusterau sydd yno. Mae gan ganolfannau Llys y Goron hefyd Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid y gallwch ei

holi am y cyfleusterau. Gallwch ddod o hyd i rif y llys yn y llyfr ffôn dan 'Llys y Goron'. Gall y Gwasanaeth Tystion hefyd eich helpu gyda'r wybodaeth hon.

Dylech ddweud wrth y person a ofynnodd i chi fynd i'r llys os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi.

- Mae gennych anabledd neu anghenion arbennig eraill sy'n golygu y bydd arnoch angen help i gyrraedd y llys neu i symud o gwmpas adeilad y llys. Mae llysoedd yn cael eu cynnwys dan amodau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a rhaid iddynt wneud trefniadau eraill addas.
- Os byddwch yn meddwl y bydd angen cyfieithydd arnoch.
- Hoffech ymweld â'r llys cyn i'r treial gychwyn. Gallwch drefnu hyn hefyd gyda'r Gwasanaeth Tystion neu Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid Llys y Goron. Neu, o Hydref 2003, gallwch fynd ar-lein am daith 'rithiol' i dystion ar wefan y System Cyfiawnder Troseddol (www.cjsonline.org).

Dylech hefyd gysylltu â'r Gwasanaeth Tystion os byddwch yn meddwl y bydd arnoch angen:

- cefnogaeth bersonol;
- rhywun i fynd gyda chi i ystafell y llys; neu
- wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y llys.

Bygylu

Mae'n drosedd bygwth (codi ofn) ar dyst, aelod o'r rheithgor neu unrhyw un sy'n helpu'r heddlu mewn ymchwiliad. Os bydd rhywun yn aflonyddu arnoch neu yn eich bygwth mewn unrhyw ffordd, cyn, yn ystod neu ar ôl y treial, dylech ddweud wrth yr heddlu neu gynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) neu awdurdod erlyn arall yn y llys. Os ydych yn dyst i'r amddiffyniad, dylech ddweud wrth gyfreithiwr y diffynnydd neu eu cynrychiolydd yn y llys. Os nad ydych yn siŵr wrth bwy i ddweud yn y llys, dywedwch wrth y tywyswr.

Os ydych yn bryderus am gyfarfod y diffynnydd, tystion eraill, eu cyfeillion neu berthnasau, neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r gwrandawiad neu dreial, dywedwch wrth y Gwasanaeth Tystion, yr heddlu, rhywun sy'n gweithio yn y llys neu'r cyfreithiwr a'ch galwodd fel tyst. Fe ddylai ystafell ar wahân fod ar gael lle gallwch aros cyn ac wedi'r gwrandawiad.

Camau arbennig yn y llys ar gyfer tystion sy'n hawdd eu niweidio neu dan fygythiad

Gall rhai pobl gael y broses o roi tystiolaeth yn y llys yn arbennig o anodd neu frawychus ac efallai y bydd arnynt angen cymorth ychwanegol. Gall nifer o resymau fod yn gyfrifol am hyn, fel eu hoedran, efallai eu bod yn teimlo'n ofnus neu'n ddryslyd am broses y llys, neu efallai eu bod wedi gweld rhywbeth sydd wedi eu dychryn yn fawr neu a fu'n sioc fawr iddynt. Mae camau arbennig ar gael i helpu'r bobl hyn (a ddisgrifir fel 'tystion bregus neu'n cael eu bygylu') i roi eu tystiolaeth yn y ffordd orau bosibl.

A ydych chi'n gymwys ar gyfer camau arbennig?

Efallai eich bod chi yn gymwys ar gyfer camau arbennig fel 'tyst bregus' os:

- ydych chi dan 17 oed ar adeg y gwrandawiad yn y llys; neu
- bod y llys yn meddwl y gall fod arnoch angen help ychwanegol wrth roi eich tystiolaeth oherwydd eich bod:
  - yn dioddef o salwch meddwl;
  - â dealltwriaeth gyfyngedig; neu
  - ag anabledd corfforol neu eich bod yn dioddef o anhwylder corfforol.

Gallwch fod yn gymwys ar gyfer camau arbennig fel 'tyst sy'n cael ei fygylu' os yw eich tystiolaeth yn debygol o ddioddef oherwydd eich bod yn ofnus neu yn ofidus ynghylch rhoi tystiolaeth yn yr achos.

Y llys fydd yn penderfynu a ydych yn gymwys i dderbyn camau arbennig. Byddant yn cael cyngor gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gyfreithiwr yr amddiffyniad, ac yn rhoi ystyriaeth i'ch barn a ydych am ymgeisio am gamau arbennig.

Beth yw'r camau arbennig?

- Rhoddir sgrîn o amgylch y blwch tystio fel na all y tyst a'r diffynnydd weld ei gilydd.
- Y tyst yn eistedd mewn ystafell bellter o ystafell y llys lle bydd yr achos yn cael ei gynnal gan roi tystiolaeth trwy gyswllt teledu. Gall y tyst weld y barnwr, yr ynadon neu'r barnwr rhanbarth a'r cyfreithwyr, a gall y bobl yn y llys weld y tyst.
- Yr oriel gyhoeddus yn cael ei chlirio ond am un aelod o'r wasg.
- Ni fydd y barnwr a'r cyfreithwyr yn gwisgo'r gynau duon ffurfiol a'r wigiau y maent yn eu gwisgo fel arfer yn Llys y Goron.
- Cyn y treial, bydd y tyst yn cael ei recordio ar fideo yn ateb cwestiynau a ofynnir gan gynrychiolydd cyfreithiol. Dangosir y fideo fel prif dystiolaeth y tyst (prif dystiolaeth ar lafar cyn croesholi).
- Caniateir i dystion sy'n blant dan 17 oed neu oedolion sy'n hawdd eu niweidio oherwydd eu hanabledd neu anhwylder corfforol, meddyliol neu addysgol ddefnyddio cymorth cyfathrebu (bwrdd yr wyddor er enghraifft) i helpu i roi tystiolaeth yn y llys.
- Y tyst yn cael ei holi gan yr ochr arall cyn y treial.
  Yr holi yn cael ei recordio ar fideo a'i ddangos yn hytrach na bod y tyst yn cael ei holi'n fyw yn y treial.
- Y llys yn caniatáu canolwr annibynnol a gymeradwywyd i helpu plant dan 17 oed sy'n dystion, neu dystion sy'n oedolion hawdd eu niweidio oherwydd eu hanabledd neu anhwylder corfforol, meddyliol neu addysgol, i gyfathrebu gyda chynrychiolwyr cyfreithiol a'r llys.

A yw'r camau arbennig ar gael yn awr?

Mae'r camau arbennig yn cael eu cyflwyno yn raddol felly nid yw'r holl gamau ar gael ym mhob llys hyd yn hyn.

Yn Llys y Goron

Mae'r holl gamau arbennig, ar wahân i groesholi ar fideo cyn y treial a'r defnydd o ganolwyr, ar gael. Bydd y ddau gam hwn yn cael eu profi dros gyfnod o amser cyn y byddant yn cael eu defnyddio'n gyffredinol. Hefyd, nid yw prif dystiolaeth ar fideo ar gael ond i dystion hawdd eu niweidio hyd yn hyn.

Yn y llysoedd ynadon ac ieuenctid

Yr unig gamau arbennig sydd ar gael yn y llys ynadon ac ieuenctid ar y funud yw'r defnydd o gyswllt teledu a phrif dystiolaeth ar fideo ar gyfer tystion sy'n blant dan 17 mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol, trais (gan gynnwys bygythion) a chreulondeb.

A oes unrhyw drefniadau eraill ar gyfer tystion sy'n blant?

Mae gan lawer o ganolfannau Llys y Goron gyfleusterau arbennig ar gyfer tystion sy'n blant. Mae gan bob canolfan Llys y Goron Swyddog Tystion sy'n Blant a fydd yn:

- ateb eich cwestiynau am gyfleusterau yn y llys a gweithdrefnau'r llys;
- esbonio sut y mae cyswllt teledu byw yn gweithio; a
- mynd â phlentyn a'i gydymaith hi neu ef i fan aros preifat.

Os ydych yn rhiant neu warcheidwad i blentyn sy'n dyst, gallwch gysylltu â'r Swyddog Tystion sy'n Blant neu'r Gwasanaeth Tystion i gael rhagor o wybodaeth.

06 Mynd i'r llys

Treuliau

Gallwch hawlio rhai treuliau ar gyfer teithio i'r llys, a lwfans ar gyfer prydau bwyd a chyflog a gollir neu golled ariannol arall, fel gofal plant. Bydd y swm y byddwch yn medru ei hawlio yn dibynnu ar hyd yr amser y bydd yn rhaid i chi fod i ffwrdd o gartref neu'r gwaith i fynd i'r llys. Dim ond hyd yr amser y bydd y llys yn cyhoeddi eich bod wedi eich rhyddhau y gallwch hawlio treuliau.

Os ydych yn dyst i'r erlyniad, gofynnwch i gynrychiolydd y CPS neu staff y llys am ffurflen gais pan fyddwch yn cyrraedd y llys. Os yn bosibl, byddwch yn cael eich talu 5 i 10 diwrnod gwaith wedi i'r CPS dderbyn eich ffurflen gais wedi ei llenwi'n briodol.

Os ydych yn dyst i'r amddiffyniad, gofynnwch i staff y llys am ffurflen gais.

Pe bai arnoch angen help i lenwi'r ffurflen, gofynnwch i'r Gwasanaeth Tystion neu aelod o staff y llys.

Mewn rhai achosion gellir gwneud taliadau ymlaen llaw i bobl sy'n methu fforddio teithio i'r llys. Dylech gysylltu â'r person a ofynnodd i chi fynd i'r llys os bydd arnoch angen taliad ymlaen llaw ar gyfer costau teithio.

Teithio

Weithiau bydd pobl yn poeni am bethau fel a fyddant yn medru cyrraedd y llys mewn pryd, a fyddant yn medru dod o hyd i fan parcio neu ble i ddod o hyd i gysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus. Gall y cyfan fod yn rhwystr iddynt deimlo'n gyfforddus a hyderus pan ddaw'r adeg iddynt roi tystiolaeth.

Dylai'r person sy'n eich galw fel tyst roi manylion ymarferol pan fyddant yn cysylltu â chi am y diwrnod y disgwylir i chi roi tystiolaeth.

Gofynnwch am unrhyw fanylion eraill y mae arnoch eu hangen, fel trefniadau parcio a thaliadau, neu a oes bwyd a diod ar gael. Efallai y bydd raid i chi ddod ag arian parod (gan gynnwys arian mân) i dalu costau fel costau parcio a lluniaeth.

Ffrindiau a pherthnasau

Holwch y person a ofynnodd i chi ddod i'r llys a all ffrind neu berthynas ddod i'r llys gyda chi. Yn y rhan fwyaf o lysoedd nid oes raid i chi ofyn caniatâd. Ond, os ydych yn dyst mewn treial yn yr Old Bailey (y Llys Troseddol Canolog yn Llundain), bydd raid i chi adael i'r llys wybod ymlaen llaw am resymau diogelwch.

Os bydd ffrind neu berthynas yn dod i'r llys gyda chi i gadw cwmni ichi, ni fyddant yn medru hawlio dim yn ôl gan y llys i dalu am eu treuliau teithio nac arian i dalu am fwyd ac yn y blaen tra eich bod yno. Ond os bydd arnoch angen i rywun ddod gyda chi i'r llys i'ch helpu, er enghraifft, i edrych ar ôl eich plentyn tra eich bod yn rhoi tystiolaeth, neu oherwydd bod arnoch angen cymorth i symud, efallai y byddant yn medru hawlio treuliau fel costau teithio.

07 Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn y llys?

Weithiau, bydd pobl yn poeni a fyddant yn medru dod o hyd i'r adeilad, neu ganfod eu ffordd o gwmpas yr adeilad, neu y byddant yn siarad gyda'r person anghywir. Gall ei gwneud yn anodd iddynt deimlo'n hyderus neu'n dawel eu meddwl wrth roi eu tystiolaeth.

Ni ddylai bod yn y llys fod yn brofiad brawychus nac yn un sy'n rhoi pwysau arnoch. Os byddwch yn meddwl y gall fod, mae cymorth a chefnogaeth ar gael.

Pan fyddwch yn cyrraedd

Byddwch yn gweld arwyddion clir i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas. Rhestrir pob achos dan enw'r diffynnydd. Rhowch enw'r diffynnydd i'r derbynnydd neu'r tywyswr a dangoswch y llythyr yn gofyn i chi ddod i'r llys iddynt.

Bydd y derbynnydd yn dweud wrthych ble i aros. Os nad ydych eisoes mewn cysylltiad gyda'r Gwasanaeth Tystion, gallwch gysylltu â nhw pan fyddwch yn cyrraedd y llys. Os bydd arnoch angen siarad gyda'r Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid, gofynnwch yn y dderbynfa.

Os ydych yn dyst dros yr erlyniad, fel arfer bydd cynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ei g/chyflwyno ei hun i chi.

Os ydych wedi gwneud datganiad a'ch bod am ei weld cyn rhoi tystiolaeth, byddwch yn cael caniatâd i wneud hynny. Os ydych yn dyst dros yr erlyniad, gofynnwch i'r CPS am gopi. Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad, gofynnwch i gyfreithiwr yr amddiffyniad am gopi. Os byddai o gymorth i chi gael eich datganiad gyda chi pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth, gofynnwch i'r cyfreithiwr a yw hynny'n bosibl yn eich achos chi.

Bydd y tywyswr, Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid neu Wasanaeth Tystion yn gadael i chi gael golwg ar ystafell y llys cyn i'r achos gychwyn, os dymunwch. Gallwch wneud hyn y peth cyntaf yn y bore neu ar amser cinio.

Cyn i chi roi tystiolaeth

Bydd y llysoedd yn ceisio sicrhau na fydd raid i chi aros mwy na dwy awr cyn y byddwch yn cael eich galw i roi tystiolaeth.

Peidiwch â siarad gyda phobl eraill am eich tystiolaeth cyn i chi fynd i'r blwch tystio. Fe allai wneud i'r llys feddwl eich bod wedi dod i gytundeb ar beth i'w ddweud. Gallwch siarad gyda swyddogion yr heddlu a chyfreithwyr (yr erlyniad a'r amddiffyniad) sy'n ymdrin â'r achos, er na chewch drafod eich tystiolaeth gyda nhw.

Os oes peth amser i aros cyn i'ch achos ddechrau, gallwch eistedd yn yr oriel gyhoeddus yn yr ystafell a gwrando ar achosion eraill. Os gwnewch hyn, dywedwch ble yr ydych yn mynd wrth y tywyswr. Unwaith y bydd eich achos yn dechrau, rhaid i chi adael ystafell y llys ac aros hyd eich tro chi i roi tystiolaeth. Ni chewch glywed y dystiolaeth y mae tystion eraill yn ei rhoi.

Pan fydd eich tro chi i roi tystiolaeth

Pan fydd eich enw chi yn cael ei alw i roi tystiolaeth fel tyst, bydd tywyswr yn eich arwain i'r blwch tystio. Yn Llys y Goron, bydd hyn yn golygu eich bod yn wynebu'r rheithgor fel arfer.

Disgwylir i chi sefyll ar eich traed tra'n rhoi eich tystiolaeth, a dylech adael i un o'r tywyswyr wybod os byddwch yn meddwl y bydd arnoch angen eistedd i lawr. Byddant yn gofyn i'r barnwr neu'r ynad i ganiatáu hynny.

Yna gofynnir i chi gymryd llw. Mae hyn yn golygu bod raid i chi fynd ar eich llw y byddwch yn dweud y gwir ar lyfr sanctaidd eich crefydd. Os yw'n well gennych, gallwch gadarnhau (roi addewid) y byddwch yn dweud 'y gwir, yr holl wir a dim byd ond y gwir'. Dylai'r tywyswr ofyn i chi os ydych am gadarnhau neu dynnu llw ar lyfr sanctaidd cyn i chi fynd i mewn i ystafell y llys.

Dylai ef neu hi hefyd eich holi am unrhyw ddefodau ac arferion eraill y gallwch fod am eu cadw cyn rhoi tystiolaeth.

Rhoi eich tystiolaeth

Fel arfer nid yw rhoi tystiolaeth yn y llys yr un peth â phan wnaethoch eich datganiad tyst cyntaf. Yn hytrach, bydd y cyfreithwyr yn gofyn cwestiynau i chi – ac fe allant ymddangos fel pe baent yn ailadrodd cwestiynau neu yn eu gofyn mewn ffyrdd gwahanol. Cofiwch y canlynol os gwelwch yn dda.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y diffynnydd wedi pledio'n ddieuog. Bydd eich tystiolaeth o gymorth i'r llys benderfynu a yw'n euog neu beidio.
- Os nad ydych yn gwybod ateb i gwestiwn neu os nad ydych yn sicr, dywedwch hynny. Gallwch ofyn i'r ynadon, y barnwr rhanbarth neu'r barnwr am gyngor.
- Peidiwch â phoeni os dywedir wrthych na fedrwch ddweud rhai pethau wrth roi tystiolaeth. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod rheolau am y math o dystiolaeth y gall y llys ei glywed.
- Cymrwch eich amser a siaradwch yn araf a chlir.
- Gofynnwch i gwestiynau gael eu hailadrodd os nad ydych yn deall neu os nad ydych yn clywed.
- Ni fydd yr ynad, y barnwr rhanbarth na'r barnwr yn gwybod popeth am eich achos, felly gofalwch na fyddwch yn gadael dim byd allan o'ch tystiolaeth.
- Weithiau gelwir tystion i roi tystiolaeth pan fydd y diffynnydd wedi pledio'n euog. Mae hyn yn digwydd pan fydd anghytundeb ar ffeithiau'r trosedd.

Os gelwir chi fel tyst dros yr erlyniad, cyfreithiwr yr erlyniad fydd yn gofyn cwestiynau i chi. Yna bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad yn gofyn cwestiynau i chi (eich croesholi). Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad, cyfreithiwr yr amddiffyniad fydd yn gofyn ei g/chwestiynau yn gyntaf, ac yna cyfreithiwr yr erlyniad. Pan fydd un cyfreithiwr wedi gorffen ei g/chwestiynau, byddwch yn aros yn y blwch tystio. Bydd y barnwr (neu ynad) yn gwahodd y cyfreithiwr arall i ofyn cwestiynau i chi. Mae llawer o bobl yn cael eu synnu neu yn pryderu am y croesholi gan y cyfreithiwr arall. Mae'n bwysig cofio'r canlynol.

- Nid yw'n bersonol – gwaith y cyfreithiwr yw gwneud yn siŵr nad ydych wedi gwneud camgymeriad.
- Nid y chi sydd ar brawf. Nid yw'r cyfreithwyr yn ceisio gwneud i bobl feddwl eich bod yn ddwl, na'ch galw yn gelwyddog. Os bydd y cwestiynau yn mynd yn rhy ymosodol, mae gan y cyfreithiwr a'ch galwodd fel tyst yr hawl i ofyn i'r barnwr neu ynad roi stop ar hynny. Gall y barnwr neu ynad hefyd ofyn i'r cyfreithiwr stopio cwestiynu.
- Mae ein cyfraith ni yn seiliedig ar y syniad bod y diffynnydd yn ddieuog nes y profir ei euogrwydd. Mae gwneud yn siŵr bod tystiolaeth tyst yn profi rhywbeth mewn gwirionedd yn rhan hanfodol o'r broses.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan y diffynnydd gyfreithiwr yn bresennol a byddant yn gofyn cwestiynau i chi. Ond, mae gan ddiffynnyddion yr hawl i wrthod cynrychiolaeth gyfreithiol a'u hamddiffyn eu hunain, ac fe all hyn olygu y byddant yn eich holi chi. Mae hyn yn hynod o brin ac fel arfer nid yw'n digwydd ond mewn achosion mân iawn.

Ni all diffynnydd groesholi dioddefwr, plentyn na thyst 'a warchodir' (rhywun fu'n dyst i'r trosedd ei hun) mewn achosion sy'n ymwneud â throsedd rhywiol (neu rai troseddau eraill yn ymwneud â phlant). Yn yr achosion hyn, rhaid i gyfreithiwr ofyn y cwestiynau ar ei r(h)an.

Beth sy'n digwydd wedi i chi roi tystiolaeth?

Bydd y ddau gyfreithiwr yn dweud wrth y barnwr neu ynad nad oes ganddynt fwy o gwestiynau i chi. Bydd y barnwr neu ynad yn diolch i chi am eich tystiolaeth ac yn eich rhyddhau'n swyddogol. Mae hyn yn golygu y gallwch adael y llys. Gallwch fynd adref, neu gallwch aros i wrando ar weddill yr achos. Ond, os ydych yn dyst mewn treial neu wrandawiad mewn llys ieuenctid, mae'n annhebygol y cewch aros wedi i chi roi eich tystiolaeth.

Unwaith yn unig y gofynnir i'r rhan fwyaf o bobl roi tystiolaeth mewn unrhyw dreial neu wrandawiad. Ond, os oes tystiolaeth newydd sy'n golygu y bydd raid gofyn cwestiynau newydd i dystion, efallai y byddwch yn cael eich galw eto.

08 Wedi'r treial

Wedi i chi roi tystiolaeth mewn treial, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn cael gwybod beth sy'n digwydd. Efallai eich bod yn gwybod yn barod a ydych yn meddwl y dylid cael y diffynnydd yn euog neu'n ddieuog – ond efallai nad dyna fydd penderfyniad y llys.

Sut i gael gwybod beth ddigwyddodd yn y treial

Gallwch ddod o hyd i ganlyniad yr achos trwy gysylltu â'r llys neu gallwch siarad gyda'r person a ofynnodd i chi fynd i'r llys.

A fydd gofyn i chi fod yn dyst eto wedi'r treial?

Fel arfer ni ddylech orfod rhoi tystiolaeth ddwywaith am yr un trosedd neu ddigwyddiad, ond fe all fod yn angenrheidiol dan yr amgylchiadau canlynol.

- Os bydd llys ynadon yn cael diffynnydd yn euog a bod ei gyfreithiwr ef neu hi yn apelio yn erbyn y dyfarniad, efallai y bydd gofyn i chi roi tystiolaeth eto. Bydd yr apêl ger bron barnwr yn Llys y Goron, ond gyda dau ynad yn hytrach na rheithgor.
- Mae gan ddiffynyddion a geir yn euog gan reithgor yn Llys y Goron yr hawl i apelio i'r Llys Apêl. Mae'n anarferol, fodd bynnag, i'r Llys Apêl fod eisiau clywed tystiolaeth tystion eto.
- Os na fydd y rheithgor yn Llys y Goron yn medru cytuno ar reithfarn, gall aildreial gael ei gynnal ac efallai y bydd gofyn i chi roi tystiolaeth o flaen rheithgor gwahanol. Nid yw hyn yn digwydd yn aml iawn.
- Efallai y bydd angen aildreial hefyd os oes problem gyda'r treial a bod y barnwr neu ynad yn gorfod stopio'r achos. Byddwch yn cael gwybod pam bod hyn wedi digwydd, pryd y bydd yr aildreial, ac a ddylech fod yno neu beidio.

Welsh
Cyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu'r Swyddfa Gartref Hydref 2003